Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

—

Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

20 Ionawr 2021

Annwyl Gydweithiwr

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn cynnal **ymchwiliad** ar hyn o bryd i effaith COVID-19 ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Gwnaethom gyfarfod â nifer o Fyrddau Iechyd cyn toriad yr haf, a buom yn trafod effaith y pandemig ar amseroedd aros, a'r amser y gallai ei gymryd i ddychwelyd i'r sefyllfa oedd ohoni cyn y pandemig. Mae hwn yn fater y mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr ynddo, ac roedd yn destun trafodaeth yng **nghyfarfod** y Pwyllgor gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Phrif Weithredwr GIG Cymru ar 25 Tachwedd 2020.

Rydym yn ymwybodol o'r pwysau aruthrol ar y gwasanaeth iechyd yn sgil y pandemig, a'r effaith gyfatebol ar amseroedd aros am wasanaethau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19. Ar hyn o bryd, rydym yn gobeithio cael darlun realistig ac ymarferol o'r sefyllfa bresennol. Felly, rwy'n ysgrifennu at bob bwrdd iechyd i geisio cael atebion i'r cwestiynau a ganlyn, cyn belled ag y bo modd ar hyn o bryd:

1. Beth yw'r prif feysydd sydd o dan bwysau, a pha gynlluniau sydd gennych ar waith i fynd i'r afael â'r rheini?

2. Sut y byddwch yn blaenoriaethu'r broses o ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn rhai COVID i dargedu gostyngiadau mewn amseroedd aros?

3. Sut y byddwch yn cyfathrebu â chleifion ynghylch yr hyn y gallan nhw ei ddisgwyl o ran hyd yr amser aros, blaenoriaethu, ac unrhyw ffyrdd o reoli eu cyflwr wrth aros?

4. Pa amcangyfrifon neu amcanestyniadau ydych chi wedi'u gwneud o'r amser sydd ei angen i ddychwelyd i'r sefyllfa oedd ohoni cyn y pandemig?

5. Ydych chi'n defnyddio neu'n ystyried unrhyw ddulliau newydd neu ddulliau gwahanol o ddarparu gofal er mwyn helpu i leihau'r amseroedd aros, gan gynnwys defnyddio technolegau newydd, llwybrau gofal newydd, neu o ran capasiti yn rhywle arall?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565


**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565

6. Pa ffactorau allai effeithio ar eich cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael ag amseroedd aros (e.e. cyfnodau brig eraill o COVID-19, problemau gyda'r gweithlu neu allu corfforol), a pha gynlluniau sydd gennych ar waith i reoli'r rhain?

7. Pa wybodaeth ydych chi wedi ei chael o ran eich dyraniad o'r cyllid ychwanegol o £30m ar gyfer amseroedd aros, a sut ydych chi’n bwriadu defnyddio'r cyllid?

Rwy'n deall bod hwn yn gyfnod arbennig o heriol i'r gwasanaeth iechyd, ac rwy’n ymwybodol o’r pwysau sydd arnoch, felly byddwn yn croesawu atebion byr i’r cwestiynau hyn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb **erbyn dydd Iau 11 Chwefror.** Bydd hyn yn galluogi’ch ymateb i gynorthwyo sesiwn tystiolaeth lafar ar y materion hyn ddiwedd mis Chwefror.

Yn gywir,



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**